





## Wythnos i fynd ...

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg ddydd Gwener nesaf, yr 11eg o Ebrill. Bydd yr ysgol ar gau am bythefnos, gan ail-agor ar gyfer tymor yr haf ar ddydd Llun yr 28ain o Ebrill 2025.

## *A week to go ...*

*The school will close for the Easter holidays next Friday, the 11th of April. The school will be closed for two weeks, re-opening for the summer term on Monday the 28th of April 2025.*

---

Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025

## Paratoi at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Hoffwn longyfarch holl ddisgyblion yr ysgol sydd wedi cystadlu mewn amryw o weithgareddau yn ddiweddar. Braf yw dathlu gyda'n gilydd yn ein Gwasanaeth Ysgol Gyfan bob bore Mercher yr amrywiol gampau megis nofio, beicio, rhedeg, karate a mwy! Gyda chyfnod yr eisteddfodau lleol a rhanbarth drosodd, braf yw cyhoeddi y bydd nifer o eitemau gan yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai eleni, ym Mharc Margam.

- Cân Actol (bl.6 ac iau)
- Perfformio Golygfa (bl.6 ac iau)
- Cerddorfa (bl.6 ac iau)
- Unawd Chwythbrennau (bl.6 ac iau)
- Grŵp Dawnsio Aml-gyfrwng (bl.6 ac iau)
- Grŵp Dawnsio Gwerin (bl.4 ac iau)
- Llefaru Unigol bl.5a6
- Llefaru Unigol bl.3a4 (D)
- Dawnsio Unigol (bl.6 ac iau)

Byddwn yn rhannu mwy o fanylion gyda chi pan gawn ni'r rhaglen yn nodi pa ddiwrnodau fydd pob cystadleuaeth.

## *Preparing for the Urdd National Eisteddfod*

*I would like to congratulate all the school's pupils who have competed in various activities recently. It is nice to celebrate together in our Whole School Assembly every Wednesday morning the various achievements such as swimming, cycling, running, karate and more! With the period of local and regional eisteddfodau over, it is a pleasure to announce that the school will have several items at the Urdd National Eisteddfod in May this year, in Margam Park:*

- *Cân Actol (yr.6 and under)*
- *Performing a Scene (yr.6 and under)*
- *Orchestra (yr.6 and under)*
- *Woodwind Solo (yr.6 and under)*
- *Multi-Media Dance Group (yrs 6 and under)*
- *Folk Dance Group (yrs 4 and under)*
- *Individual Recitation yrs 5&6*
- *Individual Recitation yrs 3&4 (D)*
- *Solo Dancing (yrs 6 and under)*

*We will share more details with you when we receive the programme indicating which days each competition will be on.*

---




## Wyau Pasg i bawb

Rydym yn ddiolchgar am haelioni Joseph a Gwyneth Evans sydd yn rhieni yn yr ysgol wrth gyfrannu wy Pasg i bob disgybl yn yr ysgol. Trefnwyd y digwyddiad trwy'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, a bydd yr wyau yn cael eu dosbarthu ddechrau wythnos nesaf.

## *Easter eggs for everyone*

*We are grateful for the generosity of Joseph and Gwyneth Evans who are parents at the school in donating an Easter egg to every pupil. Organised through the Parents and Teachers Association, the eggs will be distributed at the beginning of next week.*

---



### Crysau pêl-droed newydd

Mae'r ysgol angen citiau pêl-droed newydd, ac mewn cydweithrediad â chwmni FFIGAR, os oes gennych ddiddordeb mewn noddi cit cysylltwch â Mr Siôn Griffiths os gwelwch yn dda. Bydd enw eich cwmni yn ymddangos ar flaen y crysau.


GriffithsS49@hwbcymru.net

### *New football kits*

*We are in need of new football kits, and working alongside FFIGAR, if you are interested in sponsoring a kit please contact Mr Siôn Griffiths. Your company name will appear on the front of the football shirts.*

GriffithsS49@hwbcymru.net

---



### Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

### *Half term Calendar*


*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**04/04/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru







Archebwch le / Book here : https://forms.office.com/e/hKRwnehbS7


cered
MENTER IAITH CEREDIGION
GWEITHDY LEGO
Prynhawn o ail-greu ardal Aberystwyth mas o Lego mewn gweithdy Cymraeg hwyliog (oed 6 - 11)
An afternoon of recreating the Aberystwyth area out of Lego in a fun Welsh language workshop (age 6-11)
DYDD IAU
24 EBRILL
2 - 4yp
THURSDAY
24 APRIL
2 - 4pm
Am fwy o wybodaeth:
For more information:
hannah.james@ceredigion.gov.uk
Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council
AMGUEDDFA CEREDIGION MUSEUM
FFORDD Y MÔR/TERRACE ROAD, ABERYSTWYTH, CEREDIGION, SY23 2AQ
01970 633088 HTTPS://CEREDIGIONMUSEUM.WALES